# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2022**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5**
**1020U50-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TAG**

**HAF 2022**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5**

## ADRAN A

### Y Gymraeg yn y Gymdeithas

**Cwestiwn 1 (i)**

**Wrth ateb Cwestiwn 1(i) disgwylir i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar rai o'r pwyntiau canlynol:**

- Addysg Gymraeg yn ardaloedd yr ymgeiswyr e.e. addysg feithrin; addysg ail Iaith mewn ysgolion; addysg cyfrwng Cymraeg; Cymraeg i Oedolion.  Gallai ymgeiswyr gyfeirio at ymweliadau perthnasol/sgwrs gan siaradwr gwadd. Gellir cyfeirio at Strategaeth *Cymraeg 2050* a rôl allweddol addysg er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Gall ymgeiswyr drafod eu profiad personol hefyd e.e. eu rhesymau dros ddewis astudio'r Gymraeg i Safon Uwch.

- Swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg/dwyieithog yn ardaloedd yr ymgeiswyr e.e. gweithleoedd sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf (Mentrau Iaith, cyfieithwyr, yr Urdd); swyddi yn y sector cyhoeddus; swyddi yn y sector preifat.

- Cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol e.e. gweithgareddau'r Fenter Iaith; yr Urdd; y Ganolfan Gymraeg leol; ymweliad â'r theatr; defnydd o dechnoleg a'r cyfryngau cymdeithasol; cerddoriaeth Gymraeg.

**Cwestiwn 1 (ii)**

**Wrth ateb Cwestiwn 1 (ii) disgwylir i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar rai o'r pwyntiau canlynol:**

- Pobl sydd wedi protestio dros yr iaith Gymraeg yn y gorffennol ac effaith eu geiriau a'u gweithredoedd. Er bod y cwestiwn yn cyfeiria at y 40 mlynedd diwethaf gellir derbyn e.e. llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth; protestiadau gan Eileen a Trefor Beasley yn yr 1950au; araith Tynged yr Iaith gan Saunders Lewis yn 1962; ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith dros gael deddfau iaith newydd.

- Y deddfau iaith a gafwyd dros y degawdau diwethaf:
  - Deddf Iaith 1993 (sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg; angen i gyrff cyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail eu bod yn gyfartal);
  - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (statws swyddogol i'r Gymraeg ac effaith gyfreithiol hyn; creu rôl Comisiynydd y Gymraeg).

- Rôl Comisiynydd y Gymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg e.e. mae gwaith y Comisiynydd yn cynnwys:
  - dwyn sylw i'r ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru;
  - gosod safonau ar sefydliadau er mwyn sicrhau hawliau i siaradwyr Cymraeg;
  - ymdrin â chwynion – sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

© WJEC CBAC Cyf.

- Disgwylir i'r ymgeiswyr bwyso a mesur y datblygiadau a fu dros y 40 mlynedd diwethaf, gan fynegi eu barn ar sail tystiolaeth.

| Ystod marciau | AA3 |
|---|---|
| **16-20** | • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith, a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen<br>• defnyddio ystod eang o eirfa a thermau priodol<br>• eu mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn rymus |
| **13-15** | • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith, a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen<br>• defnyddio ystod dda o eirfa a thermau priodol<br>• eu mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir cynllunio'u gwaith yn fanwl mynegi barn yn gadarn ac yn sicr |
| **10-12** | • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith, a gafael dda ar ramadeg a chystrawen<br>• defnyddio ystod o eirfa a thermau priodol<br>• eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus<br>• mynegi barn yn effeithiol, gan gyflwyno rhesymau'n gyson |
| **7-9** | • arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen<br>• defnyddio geiriau a thermau priodol<br>• eu mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir<br>• cynllunio'u gwaith yn eithaf gofalus<br>• mynegi barn yn briodol, gan gyflwyno rhai rhesymau |
| **4-6** | • arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau arwynebol<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen<br>• eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn yn uniongyrchol, gan gynnig ambell reswm |
| **0-3** | • bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**Trawsieithu**

**Cwestiwn (i)**

**Wrth drafod yr ystadegau a'r ffeithiau am wastraff plastig, disgwylir i'r ymgeiswyr ddilyn ffurf erthygl. Dylent ddefnyddio pennawd addas. Gallant ddefnyddio is benawdau yn yr erthygl os dymunant.**

**Disgwylir iddynt drafod materion fel y rhai isod:**

- Faint o balstig sy'n mynd i'r môr.
- Effaith hyn ar fywyd gwyllt.
- Mae'n broblem fyd-eang.
- Plastig o bob maint yn niweidiol.
- Gall y pysgod rydym yn eu bwyta gynnwys plastig a gwneud niwed i ni.
- Amhosib byw heb blastig – mae'n hanfodol ar gyfer ein bywydau.
- Plastig untro yw'r broblem fwyaf.
- Mae plastig yn cymryd cannoedd o flynyddoedd i chwalu.
- Mae'n rhaid i ni weithredu.
- Mae gan wledydd gyfrifoldeb.
- Gallwn ni fel unigolion wneud gwahaniaeth drwy leihau ein defnydd o blastig, a thrwy ailgylchu a'i ailddefnyddio.
- Cyfrannu yn ein cymunedau'n gallu gwneud gwahaniaeth e.e. glanhau traethau.
- Gallwn annog eraill i wneud gwahaniaeth hefyd.

**Cwestiwn (ii)**

**Wrth ymateb i'r erthygl, disgwylir i'r ymgeiswyr allu ymateb i'r ffeithiau yn y darn gan nodi eu barn a chyfeirio at eu profiadau eu hunain.** (Disgwylir iddynt lunio erthygl olygyddol, felly, yn hytrach nad erthygl sy'n cyflwyno ffeithiau'n unig).

| Ystod marciau | AA3 |
|---|---|
| **32-40** | • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn rymus<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **26-31** | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| **19-25** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| **13-18** | • mynegi eu hunain yn eitha clir a chywir<br>• cyflwyno gwaith yn eitha gofalus<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| **7-12** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **0-6** | • bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |



© WJEC CBAC Cyf.